

YMATEB LLYWODRAETH CYMRU A LLYWODRAETH YR ALBAN I FARN Y CYNGOR LLES ANIFEILIAID FFERM (FAWC) AR LES ANIFEILIAID WRTH EU CLUDO

Cyflwyniad

Mae'r ymateb hwn i Farn FAWC ar Les Anifeiliaid Wrth Eu Cludo wedi'i gyhoeddi ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban a gan fod FAWC yn gorff cynghori arbenigol ar gyfer Prydain Fawr a bod barn FAWC wedi'i chomisiynu gan DEFRA yn 2018 gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban. Mae polisi lles anifeiliaid wedi'i ddatganoli ond yn ddelfrydol byddem yn dymuno cael deddfwriaeth gyson cyn belled ag y bo modd i gynorthwyo dealltwriaeth a gorfodaeth gan fod yna lawer o symudiadau anifeiliaid rheolaidd at ddibenion amrywiol i ac o bob rhan o Brydain.

Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban yn croesawu barn FAWC ar Les Anifeiliaid Wrth Eu Cludo. Y deddfwriaeth bresennol ar les anifeiliaid wrth eu cludo yw Rheoliad y Cyngor (CE) Rhif 1/2005, sy'n berthnasol i unrhyw anifeiliaid asgwrn cefn sy'n cael eu cludo mewn cysylltiad â gweithgaredd economaidd. Rydym wedi trafod gwelliannau posibl i'r Rheoliad unwaith y bydd y DU wedi gadael yr UE ac yn cytuno, er y byddwn yn dymuno parhau i gydymffurfio o leiaf â deddfwriaeth trafniadaeth yr UE yn y dyfodol, bod cyfle i gryfhau trefniadau lles anifeiliaid wrth eu cludo i adlewyrchu'r dystiolaeth wyddonol a milfeddygol ddiweddaraf.

Fel cam cyntaf wrth adolygu'r rheoliad lles wrth gludo presennol, lansiodd DEFRA a'r gweinyddiaethau datganoledig Alwad am Dystiolaeth yn 2018 i geisio barn a chasglu tystiolaeth bellach ar reoli allforion byw i'w lladd a gwelliannau eraill i les anifeiliaid wrth eu cludo. Roedd yr Alwad am Dystiolaeth yn gofyn am wybodaeth ffeithiol am gludo anifeiliaid byw, barn ar ba mor dda y mae gofynion rheoliadol cyfredol yn diogelu lles anifeiliaid wrth eu cludo a pha ddiwygiadau y gellid eu cyfiawnhau o ran lles anifeiliaid.

Yn gyfochrog â'r Alwad am Dystiolaeth, comisiynwyd adolygiad systematig ar les anifeiliaid wrth eu cludo gan DEFRA ar ran DEFRA a'r Gweinyddiaethau Datganoledig. Cynhaliwyd y gwaith ymchwil gan Goleg Prifysgol Wledig yr Alban (SRUC) a Phrifysgol Caeredin (UoE). Cyfrannodd tystiolaeth a gwybodaeth o'r Alwad am Dystiolaeth a'r adolygiad systematig at farn FAWC. Roedd yr adolygiad systematig yn cyflwyno llenyddiaeth wyddonol a oedd yn nodi pa welliannau lles y gellid eu gwneud ar gyfer anifeiliaid wrth eu cludo. Mae copi o adroddiad llawn FAWC a'i argymhellion ar gael yn (dolen pan gaiff ei chyhoeddi).

Mae'r ymatebion canlynol i argymhellion FAWC wedi'u cytuno ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban. Croesawn adroddiad ac argymhellion FAWC ar y cyd a chredwn eu bod yn darparu sylfaen gref ar gyfer cryfhau lles wrth gludo. O ran bwrw ymlaen â'r diwygiadau, bydd hyn yn destun ymgynghoriad cyhoeddus yn y dyfodol. Bydd diwygiadau i'r trefniadau lles anifeiliaid wrth eu cludo yn amodol ar ystyried safbwyntiau a thystiolaeth a gyflwynir drwy'r ymarfer ymgynghori hwn.

Lle mae'r ymatebion canlynol i argymhellion FAWC yn dweud 'Cytunwn', dylid felly darllen hyn i olygu 'Rydym yn cytuno i ymgynghori ar hyn ymhellach yn y dyfodol' yn hytrach nag ymrwymiad i weithredu'r argymhelliad yn uniongyrchol heb ystyried y canlyniadau ymarferol ymhellach.

RESPONSE

Principles

FAWC provides 10 principles for animal welfare during transport (see Annex), which should be applied during any journey. Application of these principles should help ensure that the welfare of animals before, during and after transport is given due consideration.

Rydym wedi ymrwymo i gynnal ein safonau uchel o ran lles anifeiliaid a'u gwella mewn modd cynaliadwy. Fel rhan o'r gwaith o wneud hynny, rydym am ddatblygu a gwella ein safonau lles uchel presennol wrth gludo anifeiliaid, ac mae egwyddorion arfaethedig FAWC yn darparu sylfaen ardderchog ar gyfer gwneud hynny.

Yn benodol, rydym yn cytuno bod pob taith yn cael effaith ar les anifeiliaid a dylai dull gweithredu triphlyg gael ei roi ar waith – a ellir disodli siwrneiau, h.y. eu hosgoi; a ellir eu lleihau; ac a ellir eu mireinio. Mae hyn yn cynnwys lleihau llwytho a dadlwytho. Cytunwn y dylai teithiau gael eu cynllunio'n dda, gan gynnwys seibiannau gorffwys a threfniadau wrth gefn lle y bo'n briodol; y dylai anifeiliaid fod yn ffit ar gyfer y daith ac mewn cyflwr ffit pan fyddant yn cyrraedd; y dylid ystyried gofynion penodol gwahanol rywogaethau; y dylai'r rhai sy'n gyfrifol am gludiant anifeiliaid feddu ar y sgiliau a'r cymwyseddau priodol; ac y dylai trefniadau ac arferion cydymffurfio a gorfodi effeithiol fod ar waith. Rydym yn cytuno bod angen cyfiawnhau teithiau sy'n debygol o gael effeithiau negyddol ar anifeiliaid, ac mai'r unig anifeiliaid y dylid eu hallforio yw'r rhai a fydd yn dal i fod yn destun safonau lles cyfatebol o leiaf yn eu cyrchfan i'r safonau lles domestig. Mae'n bosibl y bydd teithiau allforio masnachol yn digwydd at ddibenion cyfreithlon amrywiol, gan gynnwys symud da byw fferm, ceffylau ac anifeiliaid eraill ar gyfer bridio neu gynhyrchu, chwaraeon neu resymau cadwraeth.

Recommendations

1. General

- 85a. *FAWC recommends that industry and academic institutions should aim to provide the latest species specific and subgroup-specific (young, juvenile, adult or end of life, weight, shorn/ unshorn, breed) scientific research findings for all animals (livestock, equine and companion animals). Any new scientific findings should be used to inform areas of concern when transporting animals. There are a number of knowledge gaps that have been identified and that these knowledge gaps should be considered as research priorities, as these could have significant implications for the welfare of animals. More funding should be made available to academia to fund independent research (i.e. no conflict of interest) to fill these knowledge gaps and to adequately understand the welfare issues that animals may experience during transport.*
- 86a. *FAWC recommends that data is collected from experiments before, during and for at least two weeks post transport to assess any long term implications to the health, morbidity and mortality of the animals after transport. This recommendation should apply to all animals (livestock, poultry, equine and companion).*

Rydym yn gefnogol iawn i lunio polisi ar sail tystiolaeth fel ffordd o helpu i sicrhau bod diwygiadau yn effeithiol, yn cyflawni eu hamcanion, yn gweithio yn y ffyrdd a fwriadwyd, ac nad ydynt yn arwain at ganlyniadau andwyol nas rhagwelwyd. Rydym yn cytuno y dylid rhannu tystiolaeth a chanfyddiadau ymchwil lle bo modd i helpu i ddatblygu'r sylfaen wybodaeth a llywio penderfyniadau cadarn o ran llunio polisiâu a gweithredu. Rydym yn cefnogi datblygiad parhaus gwybodaeth, dealltwriaeth a'r sylfaen wyddoniaeth, gan nodi bod cyllid yn amodol ar ystyried blaenoriaethau eraill, a dymunwn i well rheoliadau fod yn seiliedig ar y wyddoniaeth ddiweddaraf a thystiolaeth ehangach. Wrth fwrw ymlaen â hyn, cytunwn y dylid ystyried argymhellion technegol penodol FAWC yn ymwneud â chasglu data.

2. Live animal exports

- 87a. *FAWC recommends that animals are only transported if it is absolutely necessary and that the most welfare considerate route is chosen; which is a combination of journey quality, including the type of transport, duration and suitability. Therefore, animals should not be transported longer distances if suitable alternatives are available. Transporters intending to export animals to be slaughtered or further fattening in a different country should apply to APHA for consent to do so, indicating reasons why alternative arrangements have not been made.*
- 87b. *FAWC recommends that there is a review of the availability of abattoirs related to the points of production and particularly mindful of end of life requirement. This will identify where abattoirs need to be sited in order to meet the needs of farmers and to minimise journey times and thereby meet the welfare needs of animals.*
- 87c. *FAWC recommends further research into the feasibility of the economics, design and use of mobile slaughter facilities so as to reduce the need to transport animals over long distances particularly with regard to sea crossings.*

Mae argymhellion FAWC yn cynnig sylfaen gref a chredadwy ar gyfer ystyried diwygiadau yn y dyfodol. Mae'n llawer gwell gennym weld cig yn cael ei gludo'n bell yn hytrach nag anifeiliaid byw, a chytunwn â FAWC, os yw ystyriaethau eraill yn gyfartal, na ddylid cludo anifeiliaid ond pan fo angen, dylai amseroedd teithio fod mor fyr â phosibl, dylai anifeiliaid gael eu lladd yn y lladd-dy addas agosaf lle bo modd a dylid dewis y llwybr sydd fwyaf ystyriol o les. Cytunwn â'r egwyddor y dylid cael caniatâd ymlaen llaw gan awdurdod perthnasol yn y DU ar gyfer rhai teithiau. Rydym yn cytuno mai dim ond os gellir cyfiawnhau'r rhesymau dros beidio ag ymgymryd â thaith amgen fyrrach y dylid rhoi caniatâd, ac y dylid rhoi digon o sicrwydd ynghylch sut mae'r anifeiliaid sy'n cael eu cludo yn cael eu diogelu'n ddigonol. Fodd bynnag, mae angen i drefniadau yn y dyfodol gydnabod y cyfyngiadau daearyddol penodol sy'n berthnasol mewn ardaloedd anghysbell, er enghraifft Ynysoedd yr Alban lle mae atebion arloesol wedi'u datblygu i gludo anifeiliaid yn bell lle gellir cyfiawnhau hyn.

Rydym yn nodi argymhelliad FAWC ar adolygu lleoliad lladd-dai a pha mor agos yw poblogaethau anifeiliaid i'w lladd-dai ac yn benodol yr effaith y gallai hyn ei gael ar anifeiliaid diwedd oes. Mae hyn yn rhywbeth y dylai'r diwydiant cig ei ystyried wrth adolygu lleoliad eu cyfleusterau. Byddwn yn ystyried hefyd sut y gallai polisi llywodraeth a manwerthwyr alluogi cadwyni cyflenwi rhanbarthol yn well a chefnogi

seilwaith hanfodol fel lladd-dai. Rydym yn cytuno y byddai croeso i ragor o ymchwil ar ladd-dai symudol, gan nodi bod cyllid ymchwil y llywodraeth yn amodol ar ystyried blaenoriaethau ymchwil eraill ac y gallai'r gwaith ymchwil hwn gael ei ariannu gan y diwydiant hefyd. Yn ddiweddar, ariannodd Llywodraeth yr Alban astudiaeth ar economeg lladd-dai symudol. Rydym yn disgwyl canlyniadau astudiaeth ddichonoldeb yr Ymddiriedolaeth Bwyd Cynaliadwy i ladd-dai symudol hefyd.

3. Fitness for transport

- 88a. *FAWC recommends that guidance such as the EU “Animal Transport Guides” should be applied and promoted by the industry and government. These best practices guides have been researched and designed to improve the welfare of animals during transport and have so far been provided for: cattle, sheep, pigs, poultry and horses. Other guides exist for: goats, dogs, cats and fish.*
- 89a. *FAWC recommends that a more specific definition of fitness to transport should be created, and the industry/ levy boards could act to promote improved dialog and understanding regarding criteria fitness for transport and suitable transport conditions. Tools such as videos, posters, leaflets and written guides could all be used using the information based on best practice guides (as suggested in paragraph 86). More training should be provided to enable owners/ farmers/ transporters to identify animals that are not fit for transport. This recommendation should apply to all livestock, poultry and equine animals.*
- 89b. *FAWC recommends that current penalties to deter people from transporting animals in breach of the Regulation should be reviewed. Understanding why people breach the regulation could influence future penalties such as fixed term notices or to resource additional support for transporters/ farmers to make informed decisions when transporting animals in the future. More research is warranted to understand the human behaviours of transporting animals.*

Rydym am gynorthwyo perchnogion, cludwyr a ffermwyr i ddeall yn llawn sut i ddarparu ar gyfer safonau lles uchel wrth gludo a sut i gydymffurfio'n effeithiol â gofynion. Rydym yn cytuno y gall canllawiau arfer gorau sydd wedi'u datblygu a'u cynllunio'n dda wneud cyfraniad pwysig yn hyn o beth, ac rydym yn cytuno y gallai'r diwydiant a'r llywodraeth eu cymhwyso a'u hyrwyddo, gan gynnwys drwy fyrdau ardollau. Rydym yn cefnogi'r defnydd o amrywiaeth eang o ddulliau a sianelau i gyfleu gwybodaeth ddefnyddiol mewn ffyrdd amserol a hawdd eu defnyddio, fel rhan o'r gwaith o godi ymwybyddiaeth, cefnogi cydymffurfiaeth, a gwella deialog a dealltwriaeth. Mae hyfforddiant yn y diwydiant yn gwneud cyfraniad pwysig hefyd o ran sicrhau bod y rhai sy'n gyfrifol am les anifeiliaid wrth eu cludo'n meddu ar y sgiliau, y wybodaeth a'r cymwyseddau angenrheidiol.

Cytunwn y dylai canllawiau a deunyddiau ategol eraill adlewyrchu'r ddealltwriaeth a'r arferion gorau diweddaraf, ac y dylent fod yn ddigon manwl. Fel yr argymhellwyd gan FAWC, cytunwn y gellid adolygu'r diffiniad presennol o addasrwydd ar gyfer cludo gyda'r nod o ddatblygu fersiwn well a mwy penodol.

Mae gorfodaeth effeithiol a chyflwyno cosbau addas yn amserol yn gyfraniad pwysig at atal arferion gwael a niweidiol a chymell cydymffurfio. Rydym yn nodi argymhellion FAWC yma a byddwn yn ymateb iddynt fel rhan o'r ymateb i argymhellion diweddarach FAWC ar orfodaeth. Yn ddiweddar, ymgynghorodd Llywodraeth yr Alban ar gyflwyno hysbysiadau cosb benodedig am amrywiaeth ehangach o droseddau'n ymwneud â lles anifeiliaid, ac mae ganddi Fil gerbron Senedd yr Alban ar hyn o bryd sy'n codi uchafswm y cosbau sydd ar gael ac y gellid eu defnyddio hefyd i ganiatáu hysbysiadau cosb benodedig am droseddau cludiant lle bo hynny'n briodol yn y dyfodol.

90a. *FAWC recommend that horses should not be classified as either registered or unregistered in any proposed Regulation. Instead, the terms registered or unregistered should be removed altogether from transport legislation and that all horses should be reclassified solely as “horse(s)”. This would ensure that all horses are covered under the same Regulation and that the highest welfare standards are applied.*

Rydym yn cytuno mewn egwyddor y dylid rhoi'r un lefel ofynnol o amddiffyniad i bob ceffyl, ni waeth beth yw dosbarthiad y ceffyl a phwrpas y daith.

Mae'r rhesymau dros ddosbarthu ceffylau fel rhai cofrestredig neu anghofrestredig yn ymwneud â defnyddio safonau iechyd anifeiliaid uchel yn wirfoddol yn achos ceffylau cofrestredig (ac yn aml mae ceffylau o'r fath yn werthfawr). Nodwn efallai na fydd yr un cymhellion yn berthnasol i geffylau cofrestredig â gwerth is ac mae hyn yn risg i les y mae FAWC wedi tynnu sylw ato. Rydym yn cydnabod y dylai rheoleiddio statudol gael ei gymhwyso mewn ffordd gymesur a seiliedig ar risg, gan ystyried y perchenogion a'r cludwyr dan sylw, a'u gallu i ddarparu ar gyfer anghenion lles wrth gludo. Cytunwn y dylem ystyried cymhwyso rheoliadau lles anifeiliaid wrth gludo i bob ceffyl fel ei gilydd, rhai cofrestredig ac anghofrestredig.

4. Means of transport

91a. *FAWC recommends that all vehicles that are used to physically transport livestock, poultry and horses (i.e. lorries, trailers, horse boxes) should be inspected by Vehicle Approval Bodies, regardless of journey length. It is anticipated that these requirements will be rolled over several years due to the number of vehicles that are used for transporting these animals. All vehicles that are used to transport animals will be issued with a certificate. Whereas, vehicles which transport other vehicles containing animals i.e. trains or ships should follow similar guidance laid out by the International Air Transport Association (IATA) Live Animals Regulations.*

91b. *FAWC recommends that accelerometers should be retro-fitted to all vehicles that are used to transport livestock, poultry and horses and acceleration, braking, cornering and uneven road surfaces should be recorded by these devices. The recordings of these devices, should be submitted to the LA or APHA on request; for example, if there are increased levels of lameness, bruising or dead on arrival animals noted at the slaughterhouse.*

Credwn y dylai dull cymesur a seiliedig ar risg tuag at gymhwyso rheoleiddio statudol fod yn gymwys mewn perthynas â chymeradwyo, ardystio ac arolygu cerbydau hefyd. Ar hyn o bryd, mae angen cynnal archwiliadau ar gerbydau sy'n cludo da byw ar deithiau masnachol hir o dros wyth awr. Rydym yn cytuno, mewn perthynas â da byw, dofednod a cheffylau, y gallem ailystyried ble y dylai ffiniau rheoliadau statudol cerbydau fod, a beth ddylai'r gofynion rheoliadol penodol cymesur a seiliedig ar risg fod. Gallai hyn gynnwys ystyried i ba raddau y dylai gofynion gwahanol fod yn gymwys i deithiau masnachol ac i deithiau eraill. Cytunwn y dylai cyfnod pontio addas fod yn gymwys i unrhyw newidiadau.

Cytunwn y gall ansawdd taith effeithio ar les anifeiliaid wrth eu cludo ac y gall cyfarpar mesur cyflymiad (accelerometers) ddarparu data a thystiolaeth ychwanegol a defnyddiol yn ymwneud ag ansawdd teithiau. Rydym o'r fam y gellid trin cyfarpar mesur cyflymiad fel un agwedd ar fanyleb cerbydau, ynghyd â'r posibilrwydd o ymestyn y gofyniad i osod dyfeisiadau tracio System Leoli Fyd-eang (GPS) (dim ond os yw'r daith dros 12 awr yn y DU neu dros 8 awr ar gyfer taith allforio y mae hyn yn gymwys ar hyn o bryd). Dylai'r achos dros osod dyfeisiadau GPS a chyfarpar mesur cyflymiad (naill ai ar gerbydau newydd neu hefyd ôl-ffitio ar gerbydau sy'n bodoli eisoes) gael ei gwmpasu gan yr ystyriaeth a amlinellir uchod ynghylch pa reoleiddio statudol cymesur ar sail risg ddylai fod yn gymwys i gerbydau sy'n cludo anifeiliaid.

5. Handling at Markets

- 92a. *FAWC recommends that further scientific work is needed to determine what improvements can be made regarding handling, including loading and unloading in markets.*
- 92b. *FAWC recommends that markets should require an animal welfare licence in addition to the animal gatherings licence. The licence would serve to protect animals during their time in a market, including the time from which animals are unloaded until they are loaded onto the vehicle, and also during sales. If the market breaches any part of the licence, then this will be suspended or withdrawn. The animal welfare licence will cover the prevention of: poor handling, unfit animals being sold or transported, and poor conditions required for retention of animals at the market for prolonged periods of time. The licence will require input from the LA animal health officer(s) to enforce these requirements.*
- 92c. *FAWC recommends that further work should be carried out to identify the different times animals spend at markets, and to identify effective ways to monitor and record journey time through markets. FAWC has acknowledged that a rest period is only achieved when animals are able to show natural behaviours (including eating drinking and lying), which they may be unable to do in markets. Therefore, the amount of time animals spends in markets should be recorded, and a maximum time an animal spends at a market should be determined. These recommendations apply to all animals that go through markets.*

Rydym yn cefnogi datblygiad sail dystiolaeth well, gan gynnwys gwybodaeth am y wyddoniaeth a'r arferion gorau diweddaraf o ran llwytho, dadlwytho a thrafod mewn marchnadoedd. Rydym am ystyried hefyd sut i fesur, monitro a chofnodi cyfanswm yr amser a dreulir yn y farchnad yn well, o'r dadlwytho cychwynnol i'r ail-lwytho terfynol.

Ar hyn o bryd, mae Gorchymyn Lles Anifeiliaid mewn Marchnadoedd yn pennu'r safonau lles anifeiliaid sy'n berthnasol i anifeiliaid mewn marchnadoedd, gan gynnwys mewn perthynas â thrafod yn y farchnad, a'r amodau a'r safonau sy'n gymwys i anifeiliaid yn ystod eu harhosiad yn y farchnad. Fodd bynnag, nid yw marchnadoedd eu hunain yn ddarostyngedig i gyfundrefn drwyddedu lles anifeiliaid benodol ar hyn o bryd. Rydym yn cytuno y dylid ystyried cynnal adolygiad o'r gofynion presennol sy'n berthnasol i anifeiliaid mewn marchnadoedd, gan gynnwys uchafswm yr amser yn y farchnad, ac y gallai hyn gyflwyno'r achos yn benodol dros gyflwyno trefniadau trwyddedu newydd ar gyfer lles anifeiliaid mewn marchnadoedd.

O ystyried bod rheoliadau lles anifeiliaid wrth eu cludo'n pennu amseroedd teithio hwyaf, gyda gofynion ychwanegol ar gyfer cyfnodau gorffwys, cytunwn â FAWC y dylem ystyried pennu uchafswm ar yr amser y gall anifail ei dreulio yn y farchnad hefyd.

6. Space allowances

- 93a. *FAWC recommended an allometric system to determine the stocking density of sheep, cattle and pigs. Stocking density for horses should be determined using kg/m² and not m²/ animal. This stocking densities should be applied in any proposed policy reform. Space allowances that have not been identified based on scientific literature require further research to determine appropriate stocking densities for all species intended for travel.*
- 94a. *FAWC recommends that the following headroom height requirements as provided in Table 6 in any proposed policy reforms.*

Table 1 Recommended headroom heights for different species (height ABOVE full standing head height).

Species	Recommendations
Dairy cattle	20 cm
Beef cattle	30 cm
Sheep	22 cm
Pigs	9 cm
All other animals (excluding poultry)	20 cm above the head

Mae dwysedd stocio anifeiliaid wrth eu cludo yn agwedd allweddol ar eu lles, ac mae hyn yn cynnwys rhoi digon o le uwch eu pennau. Os na ddarperir digon o ofod a lle uwch eu pennau i anifeiliaid, gall fod effeithiau niweidiol o ran lles anifeiliaid, gan gynnwys trallod ac anghysur yn ogystal ag anafiadau a chleisio wrth eu cludo. Rydym yn awyddus i'n gofynion adlewyrchu'r dystiolaeth a'r ddealltwriaeth arbenigol ddiweddaraf ac rydym yn cytuno y dylai cynigion ar gyfer diwygiadau rheoliadol yn y dyfodol gynnwys lwfansau penodol i rywogaethau FAWC ar le uwchben pennau anifeiliaid. Cytunwn mewn egwyddor y gellid defnyddio systemau alometrig i gyfrifo dwysedd stocio, a allai gynnwys ystyried pwysau pob anifail yn unigol. Rydym o'r farn bod angen gwneud mwy o waith i archwilio sut y gellid cymhwyso'r dull manylach hwn yn ymarferol.

7. Transport practices

95a. *FAWC recommends that the definition of commercial journeys that is in the 1/2005 Regulation should be removed and instead all animals should come under the same proposed regulatory reform. This would allow all animals (livestock, poultry, horses and companion) to be afforded the same level of protection regardless if they are being moved commercially or not. There are a lot of “non-commercial” movements that are not covered by the current 1/2005 Regulation and these animals may undergo welfare concerns during transport, but are not recognised in the current transport Regulations. This proposed recommendation does not require all people who transport their animals to obtain a CoC, instead the animals that are currently listed (i.e. livestock, poultry and horses) would still require CoC, but transportation of companion animals does not. See paragraph 98 for further information on CoCs.*

Cytunwn mewn egwyddor y dylid rhoi'r un lefel o amddiffyniad gofynnol i bob anifail o'r un rhywogaeth waeth a ydynt yn cael eu symud at ddibenion masnachol neu at ddibenion eraill, ac mae'r ystyriaethau yma yn debyg i'r rhai sy'n berthnasol i argymhellion FAWC ar deithiau ceffylau. Nodwn fod deddfwriaeth ddomestig gyfredol yn darparu rhai amddiffyniadau o ran lles anifeiliaid i anifeiliaid sy'n cael eu cludo heb fod hynny mewn cysylltiad â gweithgaredd economaidd. Ar yr un pryd rydym yn cydnabod y dylai rheoleiddio statudol gael ei gymhwyso mewn ffordd gymesur a seiliedig ar risg, ac nid yw'n wir o reidrwydd y dylai'r un gofynion rheoliadol statudol fod yn berthnasol i bawb ym mhob sefyllfa er mwyn cyflawni'r un canlyniadau lles a'r diogelwch gofynnol. Gall rheoliadau neu ganllawiau anstatudol fod yn addas mewn rhai achosion, a lle bo rheoliadau statudol yn gymwys, yn ddelfrydol dylai hyn gael ei deilwra mewn ffordd sy'n seiliedig ar risg.

I grynhoi, rydym yn cytuno y dylid diogelu pob anifail ond dylem adolygu lle yn union mae'r ffiniau rheoleiddio statudol, ac y dylem ystyried sut i gymhwyso dull cymesur,

seiliedig ar risg, mewn perthynas ag awdurdodiadau, Tystysgrifau Cymhwysedd ac agweddau eraill ar reoleiddio statudol.

8. Thermal conditions and ventilation

- 96a. *FAWC recommends that more research and evidence is required to determine the acceptable temperature ranges for the different species and classes of livestock, horses and companion animals i.e. age, breed, sex, shorn/ unshorn that are transported. Until this time, FAWC have suggested temperature ranges for cattle, sheep, pigs and poultry (Appendix C of FAWC Opinion). **These temperature ranges should only be used as a guide and only when outside temperatures are exceeded i.e. outside 5°C to 30°C.** Where temperature ranges are not defined in Annex C, then the current 1/2005 Regulation should be applied to all other animals.*
- 96b. *FAWC recommended that a maximum and minimum temperature should also be devised for all animals (farm, equine and companion animals) where they are not permitted to be transported outside of these extreme temperatures ranges. This should be a research priority due to the increased levels of extreme temperature ranges that are being experienced, and are likely to be experienced, in future. Vehicle design should also be considered when considering the thermal requirements of animals.*

Mae amodau thermol ac awyru yn agwedd allweddol ar les wrth gludo a gall tymheredd eithafol ac awyru gwael achosi i faterion lles anifeiliaid godi. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf rydym yn ymwybodol o sawl achos lle mae anifeiliaid wedi dioddef trallod wrth eu cludo oherwydd tymheredd uchel. Rydym yn awyddus bod ein gofynion yn adlewyrchu'r dystiolaeth a'r ddealltwriaeth arbenigol ddiweddaraf. Rydym yn cytuno mewn egwyddor y dylid defnyddio'r amrediadau tymheredd a argymhellir gan FAWC fel canllaw yn y modd a gynigiwyd gan FAWC, ac y byddai ymchwil a thystiolaeth bellach yn helpu i lywio'r gwaith o fireinio'r paramedrau hyn ymhellach.

Cytunwn y gallai gofynion rheoliadol yn y dyfodol gynnwys pennu tymheredd allanol uchaf ac isaf ar gyfer teithiau a ganiateir, y dylai unrhyw derfynau newydd fod yn seiliedig ar wyddoniaeth a thystiolaeth, ac y dylai unrhyw ofynion rheoliadol sy'n ymwneud â'r terfynau hyn ystyried gallu'r cerbyd i reoli'r tymheredd a brofir gan anifeiliaid sy'n cael eu cludo hefyd.

9. Long journeys

- 97a. *FAWC recommends that, where robust scientific findings are available regarding species- specific or subgroup-specific (young, juvenile, adult or end of life) journey time requirements, then these should be adopted in the new regulation. Based on the scientific output from the systematic review, there are desirable maximum journey*

*time limits for some species of animals which should be applied in policy reforms (Table 7). The **desirable maximum journey time limits should not be exceeded and the times indicated in the table should be considered the absolute maximum.***

Table 2 The desirable maximum journey times for some species of animals during transport based on the systematic review.

Species	Desirable maximum journey time limits
Broiler chickens	4 hours
Pigs	18 hours
Newly weaned pigs	8 hours*
Halter broken / Non halter broken horses	12 hours
Calves (up to 9 months)	9 hours
Recently hatched chicks	24 hours (FAWC recommendation 21 hours, written consent required to travel 24 hours*).
Cattle	29 hours (FAWC recommendation 21 hours, written consent required to travel 29 hours*).
Sheep	48 hours (FAWC recommendation 21 hours, written consent required to travel 48 hours*).
All other animals (until scientific evidence is provided, no animal should be exposed to journeys longer than 21 hours).	21 hours

* FAWC recommendation

- 97b. *FAWC also acknowledges that the shortest journey time should be applied in all circumstances, therefore FAWC recommend that if any journey goes beyond 21 hours for all animals (cattle, sheep, and other livestock and companion animals that are not mentioned in **Table 7**) then written consent is required and submitted to APHA for review. Reasons to why the journey needs to go beyond 21 hours should be fully justified and alternative options should be noted. If an extension of 21+ hours is granted, then a mid-journey rest stop will be required – see paragraph 97).*
- 98a. *FAWC recommend that a maximum journey time of 9 hours for all un-weaned animals or animals that have been weaned within the last week (all livestock and horses, and companion animals) (except for newly weaned pigs).*

Mae pennu amseroedd teithio uchaf clir ar gyfer pob rhywogaeth yn amddiffyniad craidd yn ein system reoleiddio lles wrth gludo. Rhaid i anifeiliaid fod mewn cyflwr ffit ar ddiwedd eu teithiau, ac mae egwyddorion FAWC yn adlewyrchu'r ffaith y gall pob taith gael effeithiau andwyol ar les anifeiliaid sy'n cael eu cludo. Mae lleihau nifer teithiau cymaint ag y bo modd, a lleihau hyd teithiau pan fyddant yn digwydd, yn ganolog i egwyddorion FAWC.

Cytunwn y dylai uchafswm amser teithio adlewyrchu'r dystiolaeth wyddonol ddiweddaraf ac y dylai ystyried ffactorau perthnasol, megis a yw'r anifail heb ei ddiddynnu, yn ifanc, heb fod yn llawndwf, yn oedolyn, neu ar ddiwedd oes. Nodwn fod FAWC wedi cynnig yr un amseroedd teithio uchaf ar gyfer rhai rhywogaethau, beth bynnag yw diben y daith, e.e. i'w lladd, ar gyfer cynhyrchu neu ar gyfer bridio, a heb ystyried y math o daith, e.e. masnachol neu anfasnachol.

Rydym yn cytuno y dylid ystyried mabwysiadu'r amseroedd teithio mwyaf dymunol penodol a gynigir gan FAWC yn Nhabl 7, ar yr amod y rhoddir ystyriaeth lawn i'r dystiolaeth yn yr adolygiad systematig a thystiolaeth arall a fydd ar gael.

O ran yr argymhellion ar gyfer uchafswm amser teithiau FAWC, rydym yn cytuno y dylai'r amser teithio byrraf gael ei ddefnyddio ym mhob amgylchiad, yn enwedig y dylid cael caniatâd ysgrifenedig ychwanegol penodol gan yr awdurdod datganoledig perthnasol yn y DU ar gyfer unrhyw daith sy'n fwy nag 21 awr yn dilyn cais yn esbonio pam y gellir cyfiawnhau taith o'r fath.

Rydym yn cytuno ar yr amser teithio hwyaf o naw awr ar gyfer unrhyw anifeiliaid heb eu diddychu neu anifeiliaid sydd wedi'u diddychu'n ddiweddar (ac eithrio moch sydd newydd eu diddychu, lle argymhellir wyth awr), yn amodol ar ystyried tystiolaeth wyddonol arall a chyfyngiadau daearyddol penodol yn y DU.

Wrth fynd â'r argymhellion hyn yn eu blaenau, byddem am ystyried sut mae'r amseroedd uchaf a ganiateir yn berthnasol i deithiau o ardaloedd anghysbell a byddem am ystyried y cyfiawnhad a allai fod yn berthnasol i deithiau o'r fath, gan gynnwys o ran manteision lles posibl y teithiau ar gyfer yr anifeiliaid hynny yr effeithir arnynt.

98b. *FAWC do recognise the difficulty in implementing this recommendation for companion animals (including illegal puppy smuggling), but would encourage cooperation between the veterinary bodies, APHA and UK government to implement strategies to reduce this illegal trade.*

Nodwn sylw FAWC ar y mater hwn. Yn unol â Gorchymyn y Gynddaredd (Mewnforio Cŵn, Cathod a Mamaliaid Eraill) 1974, ni all rhai anifeiliaid anwes, megis cŵn, cathod a ffuredau, deithio'n rhyngwladol o gwbl tan eu bod dros 15 wythnos oed ac, o'r herwydd, wedi'u diddychu'n llawn. Mae gennym strategaeth gynhwysfawr sydd â'r

nod o fynd i'r afael â phroses smyglo cŵn bach o'r diwedd i'r diwedd – gan dargedu'r cyflenwad a'r galw. Mae'r strategaeth yn cynnwys gwaith ar orfodi, ymgysylltu rhyngwladol, cyfathrebiadau cyhoeddus a gwerthu a thrwyddedu. Mae APHA yn gweithio ar y cyd â chlodwyr (fel cwmnïau fferi ac Eurotunnel) a Llu'r Ffiniau mewn porthladdoedd, i ganfod cŵn bach yr amheuir eu bod dan oed a'u hatafaelu os cadarnheir eu bod dan 15 wythnos, yn ogystal â chanfod achosion o dorri amodau lles wrth gludo.

10. Journey times and rest periods

99a. *FAWC recommend that a mid-journey rest period for all animals where there is no determined desirable maximum journey or when the maximum desirable limit exceeds 21 hours (cattle/ sheep, companion animals, livestock, poultry and horses). Mid-journey rest periods should be more aligned to driver time and rest periods from the Regulation (EC) 561/2006, where a rest period of 45 mins every 4.5 hours is recommended (see **Table 8**). If the proposed journey exceeds 9 hours of driving, then a second driver is required. By aligning the driver's Regulation to the animal transport regulation, this should improve the quality of driving by allowing the driver to have suitable rest breaks to refresh. However, further research is required to ultimately decide what would constitute the optimum rest periods for both driver and animals.*

Table 3 The proposed breakdown of mid-journey rest periods.

Drive r	Travel time	Mid- journey rest time	Travel time	Mid-journey rest time	Cumulative total
1	4.5 hours	45 mins	4.5 hours	45 mins	9 h + 1.5 h (10.5 h)
Drivers swap over					
2	4.5 hours	45 mins	4.5 hours	45 mins	18 h + 3 h (21 h)
Written consent is required to continue the journey beyond 21 hours. If granted, 24 hours rest is performed where animals should be unloaded, fed, watered and opportunity to perform natural behaviours.					
1	4.5 hours	45 mins	4.5 hours	45 mins	27 h + 4.5 h (31.5 h)
Drivers swap over					
Absolute maximum journey duration for cattle - animals must not be allowed to continue to travel.					
2	4.5 hours	45 mins	4.5 hours	45 mins	36 h + 6 h (42 h)
Absolute maximum for sheep duration for sheep - animals must not be allowed to continue to travel.					

Rydym yn cytuno y gallai seibiannau canol taith i anifeiliaid yn ystod teithiau hir fod yn elfen allweddol o ddarparu ar gyfer lles o safon uchel wrth gludo, a dylid eu hystyried law yn llaw ag amseroedd teithio uchaf. Mewn egwyddor, rydym yn cytuno, yn unol ag egwyddorion rheoleiddio gwell, y dylai'r amseroedd teithio uchaf a chyfnodau gorffwys sy'n ymwneud â gyrwyr ac anifeiliaid sy'n cael eu cludo fod mor

gydlynol, cyson ac aliniedig â phosibl. Rydym eisiau ymchwilio ymhellach i ba raddau ac ym mha ffordd y gellid alinio'r cyfnodau amser hyn, ac rydym yn cytuno y gallai casglu rhagor o dystiolaeth ac ymchwil fod yn ddefnyddiol i lywio'r ystyriaethau hyn.

100a. FAWC recommends that the 65km barrier that is currently applied to the EU 1/2005 Regulation should be removed and instead anyone who owns or transports livestock, poultry or horses (regardless of distance/ duration) should have a transporter authorisation and CoC. To note, this proposed recommendation does not require all people who transport their animals to undergo a CoC, only the animals that are currently listed (i.e. livestock, poultry and horses) would still require CoC but transportation of companion animals will not. This recommendation is linked to recommendation 93.

Cytunwn mewn egwyddor y dylid darparu'r un amddiffyniad a diogelwch i anifeiliaid yn ystod y teithiau byrraf ag ar gyfer teithiau eraill. Ar yr un pryd, rydym o'r farn y dylid defnyddio dull cymesur o weithredu sy'n seiliedig ar risg wrth gymhwyso rheoliadau statudol, ac mae hyn yn cynnwys ystyried yn ofalus lle'n union mae terfynau rheoliadau statudol. Rydym yn cytuno bod rhinwedd mewn ystyried a ddylai fod yn ofynnol i bawb sy'n cludo da byw, dofednod neu geffylau gael tystysgrif awdurdodi cludwr a Thystysgrif Cymhwysedd, gan gynnwys os ydynt ond yn cludo anifeiliaid ar deithiau byr. Dylid ystyried hyn law yn llaw â chynigion cynharach yn ymwneud â chymhwyso rheoliadau statudol i deithiau anfasnachol yn ogystal â theithiau masnachol.

11. Sea transport

101a. FAWC recommends policy reforms which prevent animals from being transported in severe weather and sea conditions where increased side-to-side or up-and-down motions may occur.

101b. FAWC recommend that vehicles should be carried in locations on vessels designed to provide natural ventilation as far as possible rather than relying on mechanical systems. Where mechanical systems are needed these should be designed and operated to provide the recommended temperature range at all times.

101c. FAWC recommends that no animals are transported over the sea during Beaufort Wind Force of 6 or above, as these conditions have been shown to cause motion sickness in the cattle and sheep. Contingency plans in the case of poor sea conditions, and provision of venues to accommodate animals, should be the responsibility of the owner/ transporter and should be inspected by APHA.

- 101d. *Until further scientific research has been conducted, the maximum acceptable journey duration by sea is unknown, therefore FAWC recommends that further funding should be made available for research in establishing maximum journey limits over the sea.*
- 101e. *FAWC recommends that the concept of “neutral time” should be reviewed and that all movements over the sea should be considered as a category of journey time. Animals that are transported in livestock vessels and cassette systems are provided with water and food, and have appropriate arrangements for space, bedding, environmental control and attention but the motion of the sea is not prevented during these journeys, and they do continue ‘to travel’ during sea passage.*
- 101f. *FAWC recommends that any proposed policy reform should ensure that anyone responsible (including Captain/Pilots) for transporting livestock and horses only should be required to receive suitable training as per the requirements of the proposed reformed regulation.*

Rydym yn cytuno y dylid rhoi ystyriaeth benodol i'r materion a'r heriau penodol sy'n berthnasol i anifeiliaid sy'n teithio ar y môr. Cytunwn na ddylid cludo anifeiliaid ar y môr yn ystod tywydd garw neu amodau eithafol ar y môr. Dylem hefyd, fodd bynnag, ystyried cynllun y llong dan sylw a chydabod y gall cludo mewn gwahanol fathau o dywydd fod o fudd i les yr anifeiliaid sydd angen eu symud o ynysoedd i amodau gwell, fel rhan o batrwm tymhorol arferol symudiadau da byw.

O ystyried natur gyfnewidiol y môr a'r tywydd, a ffactorau eraill a allai effeithio ar argaeledd gwasanaethau fferi, rydym yn cytuno y dylai'r rhai sydd eisiau symud anifeiliaid dros y môr fod â chynlluniau wrth gefn effeithiol ar gyfer eu hanifeiliaid rhag ofn y ceir oedi, ac y dylai'r cynlluniau hyn a'r lleoliadau a'r safleoedd wrth gefn cysylltiedig gael eu cymeradwyo gan yr awdurdod datganoledig perthnasol.

Lle mae teithiau ar y môr yn digwydd cytunwn ei bod yn bwysig bod dulliau awyru a rheoli tymheredd effeithiol yn cael eu darparu, a dylid darparu awyru naturiol cyn belled â phosibl yn hytrach nag awyru mecanyddol. Lle caiff awyru mecanyddol ei ddarparu, mae angen sicrhau bod yr amrediad tymheredd cywir yn cael ei ddarparu yn ystod pob rhan o'r daith.

Yn y rhan fwyaf o achosion mae anifeiliaid sy'n teithio ar y môr yn aros ar eu cludwyr ffordd ac mae'r amser hwn yn cyfrif tuag at gyfanswm amser y daith ar hyn o bryd. Bydd Llywodraeth yr Alban yn ystyried adolygu'r cysyniad o "amser niwtral" ar gyfer anifeiliaid a gludir wedi'u dadlwytho mewn amodau sy'n cyfateb i lety fferm mewn llongau da byw neu systemau casét, gan ystyried y profiad ymarferol a gafwyd wrth weithredu'r system casét yn yr Alban dros flynyddoedd lawer ac unrhyw ymchwil berthnasol yn y dyfodol.

Mae FAWC wedi argymhell bod mwy o arian yn cael ei ddarparu ar gyfer gwaith ymchwil pellach er mwyn gallu pennu'r amseroedd teithio hwyaf posibl ar y môr. Byddem yn cefnogi gwaith ymchwil pellach yma, yn amodol ar ystyried blaenoriaethau ymchwil eraill, a byddem yn cefnogi casglu tystiolaeth arall hefyd yn

ymwneud â sut y gellir mynd i'r afael ag anghenion lles anifeiliaid ar deithiau hwy ar y môr.

Cytunwn â FAWC y dylai hyfforddiant addas fod yn ofynnol i unrhyw un sy'n cludo da byw a cheffylau, gan gynnwys capteiniaid a pheilotiaid, ar ofynion unrhyw ddeddfwriaeth newydd ar gludo.

102a. FAWC recommends that scientific literature should be reviewed to assess if there are any welfare issues associated with transporting animals by rail or air. If so, more research on the welfare of animals during rail and air transportation should be carried out.

Rydym yn nodi'r cynnig ar gyfer adolygu'r llenyddiaeth wyddonol ynghylch a yw unrhyw faterion lles penodol yn gysylltiedig â mathau eraill o gludiant, megis rheilffyrdd ac awyr, a nodwn fod yr adolygiad systematig wedi edrych ar ba lenyddiaeth a oedd ar gael ar gyfer gwahanol fathau o drafnidiaeth, megis awyr. Caiff hyn ei ystyried ar y cyd â blaenoriaethau ymchwil eraill.

12. Identified welfare risks during transportation

103a. FAWC recommends that a circular approach to all journeys where feedback is provided on all long or exported journeys between the transporters and APHA. Currently, a lack of resources may mean that this is not routinely carried out. Complete feedback is required to identify reoccurring issues identified on journeys, and appropriate enforcement is applied if necessary.

Rydym yn cytuno bod adborth a deialog adeiladol rhwng cludwyr ac APHA ynglŷn â phroblemau sy'n codi ar bob taith hir yn bwysig. Mae hyn yn golygu y gellir nodi problemau, gan gynnwys yn gynnar yn y broses, ac mae'n llywio'r broses o ganfod a datblygu dulliau lliniaru, atebion ac arferion gorau. Mae prosesau ar waith ar hyn o bryd sy'n ymdrin â'r argymhelliad hwn ar gyfer da byw a cheffylau anghofrestredig, ac rydym yn cytuno y dylid eu hymestyn i gynnwys dofednod a cheffylau cofrestredig hefyd. Cytunwn â FAWC hefyd y dylai prosesau adborth helpu i ganfod problemau'n ymwneud â chydymffurfio ac y dylai helpu i gefnogi gweithgarwch gorfodi effeithiol, lle bo angen hynny. Rydym yn cytuno y dylid ystyried yr adnoddau cysylltiedig sydd eu hangen ar gyfer yr adborth hwn a phrosesau eraill, ynghyd â blaenoriaethau eraill o ran adnoddau.

103b. FAWC recommends that the enforcement between LAs and APHA should be better aligned and with improved collaboration so that transport and animal welfare remain

a priority (similar to the recommendations put forward by the Dame Glenys Stacey report). This will require stronger liaison with LAs on improving transporter performance or APHA should impose direct action during visits on farm during inspections.

- 103c. *FAWC recommends penalties to reduce non-compliance of a regulation should warrant further work. Finding the right penalty option (i.e. suspend or revoke vehicle approval and certificates of competence or fixed term notices) to determine which would benefit the welfare of the animals in the long term by reducing the numbers of non-compliance (as identified in paragraph 87).*
- 103d. *FAWC recommends that more education and training, including use of agreed guidance, is applied to all those involved with the transport process i.e. transporters (see paragraph 86 and 98).*

Ynghyd â darparu canllawiau i gefnogi cydymffurfiaeth a hyrwyddo arferion gorau, mae gorfodaeth effeithiol yn allweddol i ganfod a mynd i'r afael â phryderon ac mae'n chwarae rhan bwysig yn y gwaith o gymell cydymffurfiaeth. Mae gan awdurdodau lleol ac awdurdodau gorfodi eraill y DU (APHA yn enwedig) swyddogaethau a chyfrifoldebau pwysig, ac mae'n hanfodol eu bod yn cydweithio'n agos â'i gilydd. Mae hyn yn cynnwys cysoni a chydlynw blaenoriaethau, protocolau a ffyrdd o weithio. Rydym yn cefnogi argymhelliad FAWC y dylai pob parti sy'n ymwneud â gorfodi weithredu mewn ffordd gyson iawn, gydweithredol ac unedig. Mae trefniadau rhannu gwybodaeth a chyswllt yn bodoli eisoes, ac rydym yn cytuno y byddai'n ddefnyddiol eu hadolygu i helpu i ganfod gwelliannau. Gallai hyn gynnwys sut y caiff perfformiad gorfodi ei fonitro a'i reoli, a sut y mae'r awdurdodau yn defnyddio'r pwerau sydd ganddynt.

Cytunwn fod gorfodaeth effeithiol yn golygu gallu cymhwyso'r mathau cywir o gosbau, ac y byddai'n ddefnyddiol i ni adolygu'r casgliad cyfredol o gosbau sydd ar gael, gan gynnwys ym mha amgylchiadau y gellir eu defnyddio a hefyd eu dyfnder a'u graddfa. Bydd Llywodraeth yr Alban yn ystyried cyflwyno hysbysiadau cosb benodedig ar gyfer troseddau cludiant i anifeiliaid a throseddau lles anifeiliaid eraill yn dilyn y Bil sy'n cael ei ystyried gan Senedd yr Alban ar hyn o bryd i ddarparu'r pwerau angenrheidiol.

Cytunwn ag argymhelliad cynharach FAWC y byddai gwaith ymchwil pellach ar agweddau tuag at gydymffurfiaeth yn helpu i roi gwybod i ba raddau y byddai'n well mynd i'r afael â gwell cydymffurfiaeth drwy ddarparu mwy o gymorth ac arweiniad. Byddai cynigion ymchwil pellach yn cael eu hystyried law yn llaw â blaenoriaethau eraill. Fel yn flaenorol rydym yn cytuno y dylid ystyried mwy o addysg, hyfforddiant, canllawiau a chymorth arall i alluogi a hyrwyddo gwell cydymffurfiaeth.

Welfare at destination

- 104a. *FAWC recommends that no animals shall be transported to a destination where the welfare conditions are lesser or contrary to UK legislation or codes of practice.*

Mae llawer o bryderon wedi'u codi, a hynny'n gwbl briodol, am anifeiliaid sy'n cael eu hallforio i wledydd eraill lle gallai trefniadau diogelu lles anifeiliaid fod o safon is nag yn y DU, gan gynnwys y safonau sy'n gymwys ar y fferm, mewn marchnadoedd, wrth eu lladd, neu ar deithiau pellach. Er mwyn i deithiau allforio beidio â bod yn gysylltiedig â lles anifeiliaid gwaeth, cytunwn y dylem ystyried y trefniadau diogelu lles sy'n gymwys i anifeiliaid ar ôl iddynt gyrraedd pen eu taith. Rydym yn cytuno y dylai ystyried gofynion rheoleiddio yn y dyfodol gynnwys pa fath o drefniadau cymeradwyo i'w defnyddio ar gyfer teithiau allforio, gan gynnwys pa fath o sicrwydd ddylai fod yn ofynnol ynghylch y diogelwch ar ôl allforio sy'n gymwys i anifeiliaid ar ôl iddynt gyrraedd dramor. Mewn egwyddor rydym yn cytuno â FAWC na ddylai unrhyw anifail gael ei gludo i gyrchfan lle byddai'r amodau lles yn annerbyniol yn y DU. Rydym eisiau ystyried ymhellach sut y gellid rhoi hynny ar waith yn ymarferol.

FAWC's Welfare Principles to be applied to the transport of animals:

FAWC have proposed a list of principles, which apply to all animals that are transported. They recommend that these should be considered whenever any animal is moved, acting as principles against which any movement being planned or undertaken should be considered. The principles listed below all have the same 'weight' and should not be ranked. The principles of animal welfare during transport for any one journey are as follows:

- I. The three "R's" should be applied to transportation.*
 - a. Replacement: If any measure that can lead to replacement of the transport of live animals is practical, then it should be applied. For example; can meat-only trade, or artificial insemination, replace the transport of animals?*
 - b. Reduction: If any measure can be applied to the proposed journey that will result in a reduction in the number of animals, the duration, or the distance of the journey then these should be applied. For example; could animals be finished or slaughtered at a premises which is closer than the original premises?*
 - c. Refinement: If any measures exist that can be applied to refine a proposed journey, and are practical, then they should be applied. For example; the means of transport should consider, age, sex, size, weight, coat length and health status of the animal – and transport methods should be used which best meet the physiological and mental needs of the animal.*
- II. All persons that are involved in the transport of animals have a responsibility to ensure the welfare of those animals. Anyone with these responsibilities should be trained, and shown to be competent.*
- III. The number of loading and unloading events for any one animal must be minimised.*
- IV. No journey should be undertaken where the likely negative welfare impacts to the animal cannot be justified. The individual journey should be planned to consider the physiological and psychological needs of that animal, or species, or group. Planning should include consideration of loading, unloading, journey stops and rest stops.*
- V. The animal, or animals, must be fit for the intended journey, and the animals must be in a fit state at the end of the journey.*
- VI. There must be a contingency plan in place for reasonably foreseeable circumstances.*

- VII. *Transport should match the species-specific requirements of the animal¹.*
- VIII. *The competency requirements of the transporter (driver, captain, pilot, etc.) must match those of the vehicle, the animals, and the distance, type and nature of the journey. Ongoing competence should be demonstrated by undertaking training that must be relevant to the welfare of animals and use of metrics of ongoing performance.*
- IX. *The destination ‘outcome’ must conform to regulatory requirements that will continue to protect the welfare of the animals at a level not below that of the UK. This will ensure that the standards for the animal at the destination (for example slaughter conditions or husbandry conditions) will be equivalent to, or better than those for an animal in a similar situation in the UK.*
- X. *There must be a robust audit/ inspection of animal welfare during transport, and accompanying appropriate penalties (either through assurance or legal penalties) for failure or breach of the duty of care. Clear communication and feedback throughout the supply chain should be practised to maintain attention to animal welfare throughout all stages of transport.*

¹ To consider some of the requirements: breed, sex, weight, young, juvenile, adult or end of life young, shorn/ unshorn